Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru

05/02/2019

Annwyl Eluned

**Cynllunio ariannol 2019-20**

Ar 28/09/2018 cyflwynwyd Amcangyfrif Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2019-20 yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn yr Amcangyfrif hwn nodwyd gofynion penodol lle'r oedd angen buddsoddiad ariannol penodol. Wrth lunio'r gyllideb fanwl ar gyfer 2019-20 mae'r gofynion hyn yn achosi pwysau cyllidol ym mlwyddyn ariannol 2019-20 a'r dyfodol. Cyflwynir cais yn y llythyr hwn am gyllid ychwanegol er mwyn lliniaru'r effaith hyn.

**Cost y Cynllun Pensiwn**

Ar 28/09/2019 daeth llythyr i law gan Gyfarwyddwr Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil a'r Post Brenhinol yn datgan y dylai adrannau gynllunio ar gyfer cynnydd i gyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 21% i 28% ar gyfartaledd. Mae asesiad wedi ei wneud o'r effaith ar gostau'r Comisiynydd, sydd yn achosi cynnydd o £117,000 i gostau cyflogaeth o 01/04/2019 ymlaen. Nid oes cyllid ar gael gan y Comisiynydd i ysgwyddo'r cynnydd hwn. Nodir bod Cyfarwyddwr Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil a'r Post Brenhinol wedi datgan yn ei llythyr bydd Trysorlys EM yn rhoi cefnogaeth i adrannau gyda chostau anrhagweledig.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Buddsoddi mewn Technoleg Gwybodaeth

Mae buddsoddiad y Comisiynydd yn yr isadeiledd a’r systemau technoleg gwybodaeth wedi ei gadw, yn y blynyddoedd diweddar, at y lleiafswm oedd ei angen i reoli’r risg a chadw’r isadeiledd a’r systemau yn ddiogel.

Mae’r amser wedi cyrraedd yn awr, lle bo oedran a chefnogaeth nifer o systemau yn dod i ben dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Mae uwchraddio a buddsoddi mewn systemau cyfredol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y sefydliad wedi ei ddiogelu o ran cynhaliaeth a chefnogaeth i’w systemau. Byddai parhau gyda’r systemau presennol yn peri risg annerbyniol mewn byd lle mae gweithrediad sefydliadau yn hollol ddibynnol ar dechnoleg ac amgylchedd lle mae risgiau cynyddol i ymosodiadau o’r tu allan.

Mae Cynllun Buddsoddi TG wedi ei ddatblygu a’i roi ar waith i ymateb i’r risgiau hyn. Nid yw’r cynllun hwn yn mynd ymhellach na sicrhau y bydd isadeiledd a systemau’r Comisiynydd yn gyfredol ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth gwneuthurwyr yn y ddwy flynedd nesaf. Mae’r cynllun hwn wedi ei gostio yn fanwl ac mae angen buddsoddiad o £184,000 dros flynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21.

## Blaenoriaethau’r Cynllun Strategol

Yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2019-20 amlinellwyd tri phrosiect yn rhoi rhagor o bwyslais ar hwyluso cydymffurfiaeth mewn meysydd allweddol. Y tri phrosiect a’r buddsoddiad perthnasol yw:

- Cynyddu Defnydd o’r Gymraeg £147,000
- Marc Ansawdd Cynllun Hybu’r Gymraeg £107,000
- Ymchwil Mapio Digidol £20,000

Mae manylion pellach o’r prosiectau wedi eu cynnwys yn yr Amcangyfrif.

## Crynodeb

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r cyllid ar gyfer y gwahanol elfennau:

| | | £ |
|---|---|---|
| Cyfraniadau’r cyflogwr i’r cynllun pensiwn | Gorfodol | 117,000 |
| Buddsoddiad yn isadeiledd a systemau TG | Angenrheidiol | 184,000 |
| Prosiectau’r Cynllun Strategol | Dymunol | 274,000 |
| **CYFANSWM** | | **575,000** |

## Effaith ar y gronfa wrth Gefn

Mae’r Comisiynydd wedi datgan yn gyson ei bod yn ddarbodus cadw tua £250,000 yn y gronfa wrth gefn ar gyfer gwariant ni ellid ei ragweld ac unrhyw achos cyfreithiol allai godi yn y dyfodol.

Ni fydd modd i’r Comisiynydd osgoi'r cyfraniadau ychwanegol i’r cynllun pensiwn. Hefyd byddai peidio â buddsoddi ac uwchraddio’r systemau TG yn peri risg annerbyniol i’r sefydliad.

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Sgil effaith y ddwy elfen yma yw gorwariant yn erbyn lefel cyllidebu o £3,051,000 dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r cynlluniau diweddaraf yn rhagweld bydd lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn wedi lleihau i £95,000 erbyn diwedd 2019-20 ac wedi ei herydu yn gyfan gwbl erbyn diwedd 2020-21.

Wrth i Gomisiynydd newydd gychwyn mewn swydd ar 01/04/2019 gwneir cais am gyllid ychwanegol er mwyn ymateb i'r heriau dwys hyn. Byddai'r cyllid ychwanegol yn cynorthwyo'r sefydliad yn ei ymrwymiad i barhau i wneud ei ran yn y gwaith o wireddu gweledigaeth llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,

**Gwenith Price**
**Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg a Chyfarwyddwr Strategol**
Ar ran Comisiynydd y Gymraeg

cc. Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol Swyddfa'r Prif Weinidog

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales